

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELODAU CYNGOR

BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau yn ystod blwyddyn y Cyngor a ddaeth i ben fis Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau cwblhau

Mae Cyngorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (uchafswm).

Cynghorydd : Brian Cameron

Plaid: Llafur Cymru

Ward: Whitegate

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau :

Rwy'n rhan o'r pwyllgorau canlynol

Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles

Pwyllgor Craffu Trosedd Ac Anrhefn

Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol ac unrhyw Is-Grwpiau Gofynnol

Gwasanaethau Democrataidd

Cydbwyllgor Ymgynghorol – Pwyllgor nad yw'n ymwneud ag Undebau Addysg

Cydbwyllgor Ymgynghorol – Pwyllgor Undebau Addysg

Rwy'n mynychu'r Cyngor Llawn

Rwy'n aelod etholedig o Gyngor Cymuned Parc Caia

Rwy'n aelod etholedig a Chadeirydd Bwrdd Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Parc Caia a Hightown

Rwy'n mynychu Fforwm Preswylwyr Smithfield, Hightown a Whitegate

Rwy'n mynychu Grŵp Cyfathrebu Tai Parc Caia

Rwy'n mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn rheolaidd

Rwy'n Is-Gadeirydd Grŵp Llafur Wreccsam ac yn aelod o CLP Wreccsam.

Rwy'n Llywodraethwr Ysgol a benodwyd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Gwenfro ac rwyf hefyd ar is-grwpiau pan fo angen.

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth

Rwy'n delio gyda'r nifer o bryderon gan breswylwyr mewn modd amserol drwy gyfarfodydd wyneb i wyneb neu dros y ffôn neu e-bost, ac rwyf yn rhoi gwybod i breswylwyr beth yw'r canlyniad bob amser.

Rwy'n cynnal Diwrnodau Glanhau Amgylcheddol rheolaidd i glirio sbwriel ac i gael gwared o eitemau nad yw preswylwyr eu heisiau bellach, ac mae'r rhain wedi bod yn ddefnyddiol iawn i breswylwyr.

Rwy'n mynychu boreau coffi rheolaidd a gynhelir bob mis yng Nghanolfan Gymunedol Pentre Gwyn lle gall preswylwyr godi pryderon gyda mi.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda Rheolwr Tai Parc Caia a'r goruchwyliwr Strydwedd am nifer o faterion sydd yn y ward.

Oherwydd y cyhoeddiad a wnaed gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i gau gweinyddiaeth/sylfaen y Royal Mechanical and Engineers (REME) ym Marics Hightown, roeddwn yn rhan o hyn ynghyd â'r aelod ward cyfagos dros Hermitage, y Cyng Graham Rogers, wrth drefnu deiseb. Ar nifer o benwythnosau drwy fis Ionawr/ Mawrth 2017, roedd y ddeiseb hon ar gael i'w llofnodi yng nghanol Tref Wreccsam,

casglwyd cyfanswm o fwy na 2000 o lofnodion a gwnaethom ei chyflwyno i'r AS lleol Ian Lucas iddo ei chodi yn Nhŷ'r Cyffredin.

Ar ôl siarad gydag ef yn ddiweddar, mae wedi cadarnhau bod y cwestiwn a godwyd yn dal i aros am ymateb.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig :

Rwyf wedi cyfarfod gyda Syrfewyr ym Mhentre Gwyn a Than Y Coed i weld os yw'r tir yn yr ardaloedd hyn yn addas ar gyfer adeiladu tai, mae hyn yn parhau.

Rwyf wedi bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Adran Priffyrdd am faterion traffig ffyrdd, yn enwedig goryrru, a byddaf yn parhau i wneud hyn.

Rwyf wedi bod yn rhan o faterion gydag adeiladu'r Byngalo i Oedolion gydag Anghenion Arbennig ar Rubery Way, ac mae'r gwaith adeiladu yn parhau.

Rwyf wedi ymgyrchu dros Barcio Preswyl i Bobl Anabl gyda help y Grŵp Llafur, mae hyn yn dal i fod yn parhau.

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd :

Rwy'n parhau i fynychu pob gweithdy i aelodau ar nifer o faterion i gynyddu fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth am bob mater ar draws yr awdurdod.

Rwy'n parhau i fynychu'r holl gyrsiau hyfforddiant a datblygu gan gynnwys Hyfforddi Craidd pan fo angen.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:

Rwyf wedi adeiladu perthynas dda gyda'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol ac rwy'n cyfarfod yn rheolaidd gydag ef.

Os oes angen, rwy'n cysylltu gyda naill ai Mr Ian Lucas AS neu Ms Lesley Griffiths AC am faterion na allaf eu datrys.

Signature of Councillor: Cllr. Brian Cameron

Date 11 Medi 2017